Te dagrau

Tristwch

Yn ymyl y felin roedd y dylluan wen yn byw. Hi oedd y dylluan ddoethaf yn yr ardal i gyd. “Mae hi’n amser paned o de,” meddai. “Heno rydw i am wneud te dagrau i mi fy hun.”
Dechreuodd y tegell ganu. Tra roedd y tegell yn canu meddyliodd am bethau oedd yn drist.
“Beth am gadeiriau heb goesau? Mae’r rheiny’n bethau trist iawn.” Dechreuodd ei lygaid lenwi o ddagrau. Syrthiodd y dagrau i’r tegell.
“Beth am ffenestri heb wydr? Dyna bethau trist.” Syrthiodd deigryn arall yn syth i’r tegell.
“Beth am ffyrc sy’n syrthio tu ôl i’r cwpwrdd mawr? Does neb wedyn yn gallu symud y cwpwrdd mawr. Dyna i chi beth trist.”
Disgynnodd mwy o ddagrau i’r tegell.
“Beth am lyfrau sydd wedi torri? Fydd neb yn gallu darllen y rheiny.” Syrthiodd mwy o ddagrau i’r tegell.
“Beth am ddrws heb glicied? Fydd neb byth yn gallu agor y drws hwnnw.”
Syrthiodd mwy o ddagrau i’r tegell.
“Beth am y cloc sydd ddim yn mynd? Fydd neb yn gwybod faint o’r gloch fydd hi.” Daliodd y dagrau i syrthio i’r tegell.
Meddyliodd am fwy a mwy o bethau trist.
“Beth am fwyd poeth ar blât a hwnnw wedi oeri?”
Splash! Splash! i’r tegell
“Beth am feiro a honno ddim yn sgwennu?”
Splash! Splash! i’r tegell.
Roedd y dylluan wen yn beichio crio erbyn hyn. Meddyliodd am fwy o bethau trist.
“Plant yn yr ysgol ddim yn gwrando ar yr athrawes?”
Splash! Splash! i’r tegell.
“Tylluanod sy’n drist bob amser.”
Mwy a mwy o ddagrau i’r tegell. Erbyn hyn roedd y tegell yn berwi. Tywalltodd y dŵr berwedig ar y bagiau te yn y tebot.

Arhosodd am funud i'r te setlo. Dyma'r dylluan wen yn arllwys y te i'r gwpan.
"Mae hwn braidd yn hallt" meddai. "Ond mae te dagrau bob amser yn werth i'w gael. Yfodd y te i gyd ac aeth i gysgu. Cysgodd yn sownd drwy'r nos.

O Dduw, me yna rai pobl sydd bob amser yn drist. Gwna fi yn blentyn hapus. Amen.

- Pam mae pobl, o dro i dro yn drist?
- Fyddwch chi'n drist weithiau? Pam?
- Fedrwch chi ychwanegu at y pethau oedd yn gwneud y dylluan yn drist?